
Charlie and Lola™

But I do know ALL about chocolate



based on the characters created by


lauren child



Mae gen i chwaer fach o'r enw Lola. Mae hi'n fach ac yn ddoniol iawn. Pan fyddwn ni'n mynd i'r siop gyda mam, fe fydd hi weithiau yn gadael i ni ddewis un peth fel *treat.* A bydd Lola'n dweud bob tro...siocled.

Mae Lola'n dweud, "Dwi'n hoffi siocled yn fawr iawn, iawn.




Dwi'n hoffi teisen siocled, gyda siocled yn y canol, siocled ar y tu allan.
Dwi'n hoffi anifeiliaid siâp siocled,
a siapiau siocled.
Dwi'n dweud, "Fentra i nad wyt ti'n gwybod o ble mae siocled yn dod."
Meddai Lola, "O ydw, dwi'n gwybod - mae siocled yn dod o'r siop!
Dwi'n dweud, "O na. Mae siocled yn dod o goeden."
Charlie



Meddai Lola, “Doeddwn i ddim yn gwybod bod ‘na goeden siocled, yn tyfu siocled.

Falle gallwn dyfu un yn ein gardd ni -

a blodau siocled hefyd...

ac efallai y caf dŷ siocled.



A dwi'n dweud, "Na, does dim coeden siocled - dim ond coeden sy'n tyfu codennau mawr - ac enw'r goeden yw coeden goco.




Yn y codennau mae ffa coco,
ac mae'r ffa yn cael eu malu a'u gwasgu a'u cymysgu â llaeth a siwgr
a dyna sut mae siocled yn cael ei wneud."


Meddai Lola, “Falle byddaf yn tyfu un o’r coed ffa coco a gwneud siocled fy hunan.”

A dwi'n dweud "Dwi ddim yn meddwl ei bod mor hawdd â hynny, Lola. Fe welais i raglen ar y teledu yn dangos ffermwyr coco



yn Affrica yn gweithio'n galed iawn.



Rhaid iddyn nhw edrych ar ôl y coed...

pigo'r codennau...



tynnu'r ffa allan o'r codennau...



a'u sychu yn yr haul poeth.


Ac yna ar ôl rhyw 10 diwrnod,

maen nhw'n rhoi'r ffa mewn sachau





a'u gwerthu i'r ffatri siocled."



Meddai Lola, “Mae hynny’n swnio fel gwaith caled iawn.”

Dwi’n dweud, “Ti’n iawn. Ac weithiau dyw’r ffermwyr ddim yn cael llawer o arian am gasglu’r miliynau a triliynnau o ffa coco.”




Meddai Lola “Dyw hynny ddim yn *deg* o gwbl.

Dwi’n dweud “Dwi’n gwybod, ond mae Mam yn dweud y gallwn helpu’r ffermwyr i gael mwy o arian. Y cwbl sy’n rhaid ei wneud yw prynu siocled gyda’r label arbennig sy’n dweud Masnach Deg.



Dwi'n dweud "Nid dim ond siocled, ond mae'r label i'w gael ar bob math o bethau, sy'n golygu bydd y ffermwyr yn cael eu talu'n deg bob amser.


Gallwch gael sudd oren Masnach Deg... a grawnfwyd a bananas a mêl.





Mae hefyd te a choffi a jam a losin a blodau. ”





Pan ddown ni yn ôl o'r siop, dwi'n dweud, "Lola, gaf i ddarn o siocled?" Ac mae hi'n dweud, "Dwi wedi'i fwyta i gyd - pob darn." A dwi'n dweud, "Dyw hynny ddim yn deg o GWBL."